# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru:

# Y Cyfnod Sylfaen

Gan Trisha Maynard, Alex Morgan a Jane Waters, Prifysgol Abertawe;
Jane Williams, Prifysgol Cymru, Casnewydd

Golygwyd gan John Furlong, Prifysgol Rhydychen, 2010

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
Welsh Education Research Network

T·L·R·P TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru

**Tystiolaeth ymchwil ar gyfer polisi ac arfer addysgol yng Nghymru**

Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) (www.tlrp.org/), a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yw'r rhaglen ymchwil addysgol fwyaf a gomisiynwyd yn y DU erioed. Roedd y rhaglen yn cynnwys 52 o brosiectau mawr gwahanol, yn cwmpasu pob rhan o'r system addysg o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes.

Wrth i'r TLRP ddirwyn i ben, daeth yr ESRC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Addysgol Cymru (WERN) ynghyd i gomisiynu prosiect terfynol a gynlluniwyd i ystyried goblygiadau canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon ar bolisi ac arfer addysgol yng Nghymru.

Mae pedwar tîm o ymchwilwyr o bob cwr o Gymru wedi adolygu canfyddiadau'r TLRP mewn perthynas â phedwar maes allweddol o bolisi Cymru a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd y gwaith hwnnw ei gydlynu gan John Furlong o Brifysgol Rhydychen.

Y pedwar maes polisi oedd:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Gwella Addysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 7 a 14 oed
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr.

Canlyniad yr adolygiadau yw cyfres o bosteri a phapurau briffio i gyflwyno canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon i lunwyr polisi ac ymarferwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiadau'n cynrychioli canfyddiadau timau ymchwil annibynnol; felly, nid ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Crynodeb Gweithredol

Caiff y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, fframwaith dysgu ôl-ddatganoli newydd i blant rhwng tair a saith oed, ei chwblhau yn 2011. Yn yr adolygiad hwn, ystyrir ymchwil y TLRP mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen; rydym hefyd yn cynnig sylwadau ar y canfyddiadau yng ngoleuni'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen[i] yn pwysleisio dull ymarferol o ddysgu drwy brofiad sy'n seiliedig ar chwarae mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored ysgogol. Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol wrth wraidd y cwricwlwm.

Ymddengys bod 11 o brosiectau'r TLRP[ii] yn arbennig o berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i dair thema fras sy'n dod i'r amlwg o'r rhain: *Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen, Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen* ac *Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau*. Ceir nifer o faterion ychwanegol, sy'n bwysig iawn i bolisi addysg yng Nghymru, nad ystyriwyd fel rhan o ymchwil y TLRP ac felly, nid ymdrinnir â nhw yn yr adolygiad hwn.

## 1. Canfyddiad allweddol:

**Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen**

Mae ymchwil y TLRP yn nodi bod hyfforddiant o ansawdd uchel, cymwysterau lefel uchel a datblygiad proffesiynol cynyddol yn debygol o arwain at y ddarpariaeth orau a deilliannau gwybyddol i blant. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd ymarferwyr yn myfyrio ar eu harfer eu hunain ac yn ymwneud â'r athroniaeth sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen; yn meddu ar lefel ystyrlon o statws proffesiynol; yn meddu ar deimlad o berchenogaeth dros eu harfer; a bod ganddyn nhw'r hyder proffesiynol i hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen ymhlith partneriaid allanol.

## 2. Canfyddiad allweddol:

**Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen**

Dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen fod yn fedrus wrth ddewis a defnyddio amrywiaeth o strategaethau

addysgeg. Dylen nhw sicrhau bod cyswllt agos rhwng asesu a dysgu'r plant: dylai asesu ategu dysgu a bod yn fodd o benderfynu a gafwyd dysgu. Ceir dadl gref dros glywed lleisiau pobl ifanc: dylen nhw chwarae rhan yn y penderfyniadau o ddydd i ddydd am eu hysgolion, eu dysgu a'r broses o asesu eu dysgu. Dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen gydnabod potensial dysgu TGCh ac ategu dysgu plant gydag ac ynglŷn â TGCh yn yr ysgol ac yn y cartref. Er enghraifft, trwy rhannu achosion o blant yn rhyngweithio â TGCh a datblygu partneriaethau â rhieni.

## 3. Canfyddiad allweddol:

**Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau**

Mae amgylchedd dysgu'r cartref yn hollbwysig i ddeilliannau plant; gall yr hyn mae rhieni yn ei wneud – eu gweithredoedd a'u rhyngweithiadau – wrthbwyso dylanwadau eraill sy'n eu rhoi o dan anfantais. Dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen fynd ati i annog y 'teulu' ehangach i chwarae rhan yn addysg plant er y bydd angen cymorth ar ymarferwyr o bosibl er mwyn iddyn nhw ystyried amrywiaeth yn gyfle yn hytrach nag yn broblem.

## Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion:

Mae'r defnydd o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion[iii] yn ymestyn y canfyddiadau hyn drwy leoli ysgolion o fewn system addysgol ehangach. Mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn gofyn am gydweithredu ar bob lefel a rhyngddyn nhw – ystafelloedd dosbarth, ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Y Dystiolaeth Ymchwil

## 1. Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***Ymagwedd sy'n Seiliedig ar Werthoedd tuag at Addysg Athrawon***
www.tlrp.org/proj/asmith.html

***Addysg cyn ysgol a chynradd effeithiol (EPPE 3-11)***
www.tlrp.org/proj/phase111/AssocEPPE.htm

***Dysgu Sut i Ddysgu – mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

***Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1bsept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae gan ganfyddiadau ymchwil y TLRP oblygiadau posibl o ran tri mater sy'n ymwneud ag ymarferwyr: arfer myfyriol; statws proffesiynol; a hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

### Arfer myfyriol

Mae prosiectau'r TLRP yn awgrymu bod rôl yr ymarferydd yn hollbwysig i lwyddiant y Cyfnod Sylfaen. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng gallu ymarferwyr i fyfyrio'n systematig ar eu harfer ym maes addysgeg a'r broses o roi dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ar waith yn llwyddiannus. Mae angen i ymarferwyr wahaniaethu rhwng 'ysbryd a llythyren' dulliau, yn enwedig o ran asesu[iv]. Gall myfyrio, gan gynnwys myfyrio ar eu gwerthoedd personol a phroffesiynol eu hunain, alluogi ymarferwyr i fynd ati'n adeiladol i ymwneud â'r athroniaeth sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen.

### Statws proffesiynol

Dylai arfer myfyriol arwain at nodi materion mae'r ymarferydd am eu harchwilio, ac er mwyn gwneud hyn, mae angen i ymarferwyr gael lefel amlwg ac ystyrlon o statws proffesiynol. Er mwyn i newid lwyddo, mae angen i ymarferwyr deimlo perchenogaeth sy'n seiliedig yn eu profiad eu hunain. Mae angen i reolwyr ymgysylltu ag ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth a chydnabod cyfyngiadau a goblygiadau'r 'diwylliant ticio blychau' presennol[v]. Mae angen i ymarferwyr feddu ar hyder proffesiynol

i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan y Cyfnod Sylfaen a hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio ymhlith y rhai tu allan i faes addysg[vi].

**Cwestiynau allweddol:**

**Pa mor effeithiol yw'r cysylltiadau presennol rhwng llunwyr polisi ac ymarferwyr? Sut y gellir atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn i ddatblygu cymuned arfer gref ac effeithiol?**

## Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

Mae hyfforddiant o ansawdd uchel a chymwysterau ar lefel uchel yn hanfodol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau a deilliannau gwybyddol i blant. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau addysgeg yng nghyd-destun eu lleoliad penodol. Mae angen i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol fod ar sawl lefel a chael sawl ffocws, gan adeiladu ar achosion blaenorol o archwilio'r materion; mae angen i ymarferwyr feddu ar yr hyder a'r gallu i werthuso'r holl strategaethau posibl sydd ar gael iddyn nhw a gwneud penderfyniadau sy'n briodol i'w lleoliad a'u harfer eu hunain. Mae hefyd yn bwysig i lunwyr polisi, rheolwyr ac eraill gydnabod y cyfyngiadau a'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio dulliau llwyddiannus mewn lleoliadau unigol a'u datblygu'n fentrau cenedlaethol mwy. Dylid gwerthfawrogi'r dulliau 'mewnol' sy'n effeithiol ym marn ymarferwyr yn y systemau addysg a hyfforddiant sy'n cefnogi ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen[vii].

**Cwestiwn allweddol:**

**Beth yw 'hyfforddiant' effeithiol? Sut y gallwch gyfrannu at sefydlu 'systemau' hyfforddi sy'n cefnogi ac yn datblygu pob oedolyn sy'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen?**

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Arfer myfyriol

**Teitl y prosiect:**

**Dysgu Sut i Ddysgu – mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau**

Prosiect pedair blynedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd oedd hwn, a ddatblygwyd o ymchwil yn yr ystafell ddosbarth i Asesu ar gyfer Dysgu. Canolbwyntiodd ar gyfres o gwestiynau allweddol, ac un o'r cwestiynau hyn oedd: 'Beth oedd y cysylltiadau rhwng dysgu'r athrawon eu hunain a'u harfer yn yr ystafell ddosbarth?'. Er mwyn ateb y cwestiynau, defnyddiodd y tîm ymchwil holiaduron ar raddfa fawr, gwaith arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a thasgau ymarferwyr megis gofyn i athrawon dynnu mapiau yn cynrychioli eu rhwydweithiau a nodi eu rôl nhw yn y rhwydweithiau hyn. Un o'r canfyddiadau allweddol oedd, er bod llawer o ymarferwyr yn 'dilyn' y technegau Asesu ar gyfer Dysgu, fod diffyg ymwneud â'r syniadau a'r athroniaeth sy'n sail i'r dull yn golygu nad oedd y broses yn annog plant i fod yn fwy annibynnol wrth iddyn nhw ddysgu. Yr ymarferwyr a oedd fwyaf llwyddiannus wrth weithredu'r dull oedd y rhai a nododd fod eu rôl nhw yn y broses yn ffactor pwysig. Daeth y prosiect i'r casgliad fod y gwelliannau mwyaf effeithiol i blant yn seiliedig ar systemau mae ymarferwyr yn eu creu ac yn eu perchenogi, yn hytrach na'r rhai a osodir gan gyrff allanol.

**Sylw:**

**Mae'r prosiect ymchwil hwn yn nodi'r rhyngberthynas rhwng y materion sy'n sail i arfer effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am ymwneud proffesiynol â dulliau newydd, pwysigrwydd myfyrio ac effeithiolrwydd cyfyngedig systemau 'o'r brig i lawr'. Roedd llawer o ymarferwyr o'r farn bod Asesu ar gyfer Dysgu ar wahân i agweddau eraill ar eu harfer ac nid oedden nhw'n ymwneud â'r athroniaeth a oedd yn sail i'r dull. Mae'r duedd hon i wahanu rhannau gwahanol o arfer yn arwain at brofiadau llai effeithiol i blant.**

**Cwestiynau allweddol:**

**Sut byddech yn diffinio myfyrio? Pa ran mae'n ei chwarae yn eich gwaith presennol a sut gellir ei ymgorffori yn arfer y Cyfnod Sylfaen?**

# 2. Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***ACTS (Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant) II: Ystafelloedd Dosbarth Meddwl yn Gynaliadwy***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html

***Ymgynghori â Disgyblion ar Addysgu a Dysgu***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1dsept.html

***Ymgynghori â Disgyblion ar Asesu eu Dysgu (CPAL)***
www.tlrp.org/proj/leitch.html

***Addysg Cyn Ysgol a Chynradd Effeithiol (EPPE 3-11)***
www.tlrp.org/proj/phase111/AssocEPPE.htm

***Rhyngweithio: Chwarae, Dysgu a TGCh mewn Addysg Cyn Ysgol***
www.tlrp.org/proj/phase111/Scot_extc.html

***Dysgu Sut i Ddysgu – mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

***Rôl Ymwybyddiaeth wrth Addysgu a Dysgu Llythrennedd a Rhifedd yn CA2***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2h.html

***Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1bsept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae gan ganfyddiadau ymchwil y TLRP oblygiadau o ran pedwar mater penodol yn ymwneud â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen: rhyngweithio rhwng oedolion a phlant; Asesu ar gyfer Dysgu; cyfranogiad plant; a TGCh a datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol.

## Rhyngweithio rhwng oedolion a phlant

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ennyn diddordeb plant gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgeg. Mae hyn, yn ei dro, yn gofyn am ddatblygu ymwybyddiaeth a sgiliau ymarferwyr i wneud defnydd effeithiol o'r rhain. Mae darpariaeth addysg plentyndod cynnar o ansawdd uchel a deilliannau gwybyddol uchel yn uniongyrchol ac yn arwyddocaol gysylltiedig ag addysgeg sy'n cynnwys 'prosesau meddwl parhaus a rennir'. Ymhlith yr arddulliau a'r strategaethau addysgeg gwahanol sy'n effeithio ar ddysgu plant mae cyfarwyddyd uniongyrchol, addysgu ymddiddanol rhyngweithiol, addysgu 'trwytho' – a gall rhain fod yn berthnasol i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen hefyd.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Rhyngweithio rhwng oedolion a phlant

**Teitl y prosiect:**

**Addysg Cyn Ysgol a Chynradd Effeithiol (EPPE 3–11)**

Yma, mae'r oedolyn a'r plentyn yn cynnal prosesau meddwl ei gilydd mewn achos o chwarae creadigol lle y caiff naratif ei ymestyn gan y ddau. Mae'r plentyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad ei chwarae a'r amgylchedd dysgu.

Mae'r Weinyddes feithrin[viii] a grŵp o blant yn eistedd wrth fwrdd yn gweithio gyda chlai. Mae wedi cymryd pum munud i'r bachgen wneud cacen glai ac mae bellach yn rhoi cyllell a fforc plastig ynddo.

Gweinyddes feithrin: "Hoffet ti gael rhywbeth arall i'w ddefnyddio fel canhwyllau ar dy gacen di?"
Mae'n troi o amgylch i flychau ar silff tu ôl iddi.
"Hoffet ti gael coesau matsis neu ffyn lolis?"
Mae'r bachgen yn dewis ffyn lolis ac mae'r weinyddes feithrin yn rhoi'r blwch iddo. Mae'n symud y gyllell a'r fforc ac yn dechrau rhoi ffyn lolis yn eu lle... mae pum munud arall yn mynd heibio.
Mae'r bachgen wedi gorffen ei gacen ac mae'n dechrau canu 'Pen-blwydd Hapus' i'r weinyddes feithrin. Mae'r weinyddes feithrin yn esgus chwythu'r canhwyllau. "Oes anrheg gen i?"
Mae'r bachgen yn rhoi pêl o glai iddi.
Gweinyddes feithrin: "Tybed beth sy tu mewn? Dwi'n mynd i'w agor e." Yn gyflym, mae'r weinyddes feithrin yn gwneud pot bach allan o'r bêl ac mae'n ei ddangos i'r bachgen "Mae'n wag!"

Mae'r bachgen yn cymryd darn bach o glai ac yn ei roi yn y pot bach. "Ŵy ydy e."
Mae'r weinyddes feithrin yn ei ddal yn ofalus, "Mae siâp od iddo fe."
Mae plentyn arall yn ceisio cymryd yr 'ŵy'.
Gweinyddes feithrin: "Bydd yn ofalus iawn, iawn. Ŵy ydy e."
I'r bachgen: "Beth sy'n mynd i ddod allan ohono fe?"
Bachgen: "Llew."
Gweinyddes feithrin: "Llew? O, galla i weld pam y gallai llew ddod allan ohono fe, mae ychydig o flew arno fe."
Mae'r weinyddes feithrin yn anfon y bachgen i roi'r ŵy mewn rhywle diogel i ddeor. Mae'n mynd â'r ŵy ac yn mynd i'r ystafell ymolchi. Ar ôl ychydig funudau, mae'r bachgen yn dychwelyd at y grŵp.
Gweinyddes feithrin: "Ydy'r ŵy wedi deor?"
Bachgen: "Ydy."
Gweinyddes feithrin: "Beth oedd e?"
Bachgen: "Aderyn."
Gweinyddes feithrin: "Aderyn? Bydd yn rhaid i ni fynd ag ef allan amser chwarae a'i roi e mewn coeden fel y gall hedfan i ffwrdd."

**Sylw:**

**Nododd y prosiectau EPPE (1997–2003, 2003–2008) a'r prosiect REPEY cysylltiedig (Adroddiad Prosiect 356 yr Adran Addysg a Sgiliau) brosesau parhaus a rennir (SST) fel arddull ryngweithio sy'n gysylltiedig ag achosion pan fydd plant yn cyflawni deilliannau gwybyddol uwch. Diffinnir SST yn rhyngweithio addysgol effeithiol, pan fydd dau unigolyn neu fwy yn 'gweithio gyda'i gilydd' mewn ffordd ddeallusol i ddatrys problem, egluro cysyniad, gwerthuso gweithgareddau, neu ymestyn naratif. Canfu'r ymchwil EPPE mai'r plant a'r ymarferwyr mewn lleoliadau ardderchog a oedd yn ymwneud â'r gyfran uchaf o ryngweithiadau SST, gan awgrymu bod lleoliadau ardderchog yn hyrwyddo enillion deallusol drwy sgyrsiau â'r plant lle bydd yr oedolyn a'r plentyn yn cydadeiladu syniad neu weithgaredd[ix].**

**Cwestiynau allweddol:**

**Mae angen i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ddatblygu amrywiaeth eang o strategaethau addysgeg a deall pryd i ddefnyddio'r rhain a'r ffordd orau o wneud hynny. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd?**

# Asesu ar gyfer Dysgu

Mae ymchwil y TLRP yn nodi bod angen sicrhau bod cyswllt agos rhwng asesu a dysgu, er mwyn i'r addysgu fod yn effeithiol: dylai asesu ategu dysgu yn ogystal â bod yn ddull o bennu a yw dysgwyr wedi dysgu[x]. Er mwyn gwella dysgu drwy asesu, dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen addasu eu harfer, er enghraifft, yng ngoleuni eu gwaith arsylwi (asesiadau); rhoi adborth effeithiol i blant; a chydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant yn chwarae rhan weithredol yn eu dysgu a'u hunanasesu eu hunain. Mae cysylltiad agos rhwng Asesu ar gyfer Dysgu a hyrwyddo dysgu sut i ddysgu: ystyrir bod hyn yn bwysig yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen.

**Cwestiwn allweddol:**

**Sut gall ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen sicrhau bod plant yn chwarae rhan yn y gwaith o asesu eu dysgu eu hunain?**

# Cyfranogiad plant

Ymdrinnir ag agenda hawliau plant yn fyd-eang (drwy fonitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), yn genedlaethol (drwy'r Ddraig Ffynci[xi]): ac yn lleol (drwy bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc awdurdodau lleol). Mewn ysgolion yng Nghymru, ceir gofyniad i wrando ar leisiau plant o saith oed i fyny, er enghraifft, mewn cynghorau ysgolion; fodd bynnag, ceir dadl foesegol gref dros wrando ar leisiau plant iau hefyd[xii]. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei gwneud yn ofynnol rhoi lle canolog i les plant; mae cyfranogiad mewn penderfyniadau mewn ysgolion ac ynghylch eu dysgu – a'r gwaith o asesu eu dysgu – yn ategu'r agenda hon. Ceir amrywiaeth o brosesau cyfranogol, a eglurir yn ymchwil y TLRP, y gellir eu haddasu ar gyfer lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen. Nodir manteision arfer cyfranogol hefyd: er enghraifft, mwy o ddiddordeb yn yr ysgol ymhlith dysgwyr a mwy o barch rhwng dysgwyr ac athrawon.

**Cwestiwn allweddol:**

**Os ydym yn ymrwymedig i gyflawni'r agenda hawliau plant i'n plant lleiaf, sut gallwn sicrhau ein bod yn clywed lleisiau plant ifanc yn y Cyfnod Sylfaen ac yn eu cymunedau dysgu cynnar?**

## TGCh a datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol

Efallai na fydd 'chwarae rhydd' mor effeithiol o ran cefnogi dysgu plant gan ddefnyddio TGCh neu ddatblygu eu gallu TGCh – hyd yn oed mewn lleoliadau o ansawdd uchel, mae cwricwlwm TGCh y blynyddoedd cynnar yn parhau i fod ar gam datblygu cymharol gynnar. Nodir bod rhyngweithio dan arweiniad a phrosesau meddwl parhaus a rennir yn ddefnyddiol i gefnogi datblygiad cymdeithasol a gwybyddol plant wrth ddefnyddio TGCh. Amgylcheddau dysgu effeithiol lle caiff plant ifanc gyfleoedd i ddysgu am TGCh a dysgu gyda TGCh a datblygu eu galluoedd TGCh yw'r rhai lle: bydd ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn ystyried, yn cefnogi ac yn rhannu enghreifftiau o blant yn rhyngweithio â TGCh yn ofalus; yn defnyddio TGCh i roi cyfleoedd cyfoethog am gyfnodau o ddeialog estynedig; ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i werthfawrogi a hyrwyddo dysgu priodol am TGCh a chan ddefnyddio TGCh tu allan i'r ysgol.

**Cwestiynau allweddol:**

**Yn eich profiad chi, a yw ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg sydd ar gael iddyn nhw i gefnogi dysgu cynnar plant gyda TGCh ac amdani? Os nad ydyn nhw, pam? Pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw?**

# **3.** Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***Addysg Cyn Ysgol a Chynradd Effeithiol (EPPE 3–11)***
www.tlrp.org/proj/phase111/AssocEPPE.htm

***Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arfer Mwy Cynhwysol***
www.tlrp.org/proj/smbdavies.html

***Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Gweddnewid mewn Addysg Gynradd***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2e.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae gan ganfyddiadau ymchwil y TLRP oblygiadau posibl o ran dau fater penodol: effaith amgylchedd dysgu'r cartref a datblygu partneriaethau â theuluoedd a chymunedau.

## Effaith amgylchedd dysgu'r cartref

Mae amgylchedd dysgu 'cyfoethog' – h.y. ysgogol a chefnogol – yn y cartref yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau academaidd plant ac mae'n parhau i fod yn ddylanwadol pan fydd plant yn cyrraedd 11 oed, ond mae plant mewn amgylchedd dysgu 'gwael' yn y cartref o dan anfantais eisoes pan fyddan nhw'n cyrraedd tair oed (yn ôl sgorau gwybyddol pan fyddan nhw'n dechrau'r cyfnod cyn ysgol). Mae'n hysbys bod yr hyn mae rhieni yn ei wneud yn hollbwysig a gall wrthbwyso dylanwadau eraill sy'n eu rhoi o dan anfantais. Felly, mae angen i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen gefnogi rhieni, nid dim ond fel gofalwyr ond fel addysgwyr cyntaf a pharhaol eu plant.

**Cwestiwn allweddol:**

**Beth yw'r ffordd orau o helpu rhieni i ddeall pwysigrwydd amgylchedd dysgu'r cartref a'r ffordd orau gallan nhw gefnogi dysgu cynnar eu plant?**

## Partneriaethau cadarnhaol â theuluoedd a chymunedau

Mae angen i leoliadau'r Cyfnod Sylfaen annog y 'teulu' ehangach i gymryd rhan mewn addysg plant ifanc. Dylai teuluoedd a'r gymuned leol chwarae rhan

yn y gwaith o lunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan gyflwyno llawer o brofiad diwylliannol, ieithyddol ac economaidd i'r lleoliad. Efallai bydd angen cymorth ar ymarferwyr i ystyried amrywiaeth ymhlith plant a theuluoedd yn gyfle yn hytrach na phroblem. Mae lleoliadau nad ydyn nhw'n hyrwyddo cymorth y teulu ac amgylcheddau dysgu cadarnhaol yn y cartref yn colli cyfle pwysig i wella cyflawniad a gwella datblygiad cymdeithasol ac ymddygiadol yn yr hirdymor[xiii].

**Cwestiynau allweddol:**

**Pam y gallai rhai ymarferwyr ystyried amrywiaeth ymhlith plant, teuluoedd a chymunedau yn 'broblem'? Pa gymorth sydd ei angen ar yr ymarferwyr hyn er mwyn ystyried amrywiaeth yn 'gyfle'? Sut y gallwn sicrhau bod pob ysgol yn annog y 'teulu' ehangach i gymryd rhan mewn addysg plant ifanc?**

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau

**Teitl y prosiect:**

**Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Gweddnewid mewn Addysg Gynradd**

**Sylw:**

**Mae plant yn byw mewn dau amgylchedd dysgu eithaf gwahanol: y cartref a'r ysgol. Aeth y prosiect Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol (HSKE) ati i ddod â nhw yn nes at ei gilydd, gan arwain at gydberthnasau gwell â rhieni a phlant a gwelliannau mewn dysgu plant. Un o'r nodau oedd sicrhau nad dim ond o'r ysgol i'r cartref yr anfonwyd gwybodaeth ond bod y llif gwybodaeth yn symyd i'r ddau gyfeiriad. Cyflawnwyd hyn drwy, er enghraifft:**

- **gweithgareddau sy'n mynd â'r ysgol i'r cartref: cafodd taflenni cyfarwyddyd, llyfrynnau a chylchlythyrau yn rhoi gwybodaeth am addysgu llythrennedd a mathemateg eu llunio a'u cyfieithu i ieithoedd cymunedol pan oedd hynny'n briodol; cafodd fideos yn dangos y plant yn dysgu agweddau ar lythrennedd a mathemateg eu dangos yn yr ysgol neu eu hanfon adref; cafodd arddangosfa o ddeunyddiau llythrennedd a gwaith y plant ei threfnu wrth fynedfa archfarchnad leol;**
- **gweithgareddau sy'n dod â'r cartref i'r ysgol: defnyddiodd plant flychau esgidiau i ddod ag eiddo personol i mewn i'r ysgol o'r cartref a ddefnyddiwyd i gefnogi gweithgareddau llythrennedd; defnyddiodd plant gamerâu untro i dynnu lluniau o agweddau ar eu bywydau tu allan i'r ysgol a ddefnyddiwyd fel sail i weithgareddau llythrennedd a mathemateg; ymwelodd athro-ymchwilydd ac athro dwyieithog â grŵp o rieni Bengaleg eu hiaith a oedd yn amharod i fynd i'r ysgol gan eu gwahodd i fynd i gyfarfod yn yr ysgol.**

**Effaith y gwaith cyfnewid gwybodaeth:**

**Roedd yr athrawon, y rhieni a'r plant a gymerodd ran yn y gweithgareddau HSKE o'r farn eu bod yn gyffredinol dda. Roedd rhieni yn teimlo bod y gweithgareddau o'r ysgol i'r cartref wedi rhoi llawer mwy o wybodaeth iddyn nhw am yr hyn yr oedd eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol a sut. Roedd y fideos, yn benodol, wedi dangos bywydau eraill eu plant. Dywedodd un rhiant: "Gwnaeth agor fy llygaid i'r ffordd maen nhw'n dysgu". Roedd y gweithgareddau o'r cartref i'r ysgol yn boblogaidd ymhlith yr athrawon hefyd. Nododd un athrawes sut yr oedd y gweithgaredd gyda blychau esgidiau wedi cael effaith fawr ar waith ysgrifennu llawer o blant; roedd rhain yn ddatblygiadau pwysig ym maes llythrennedd yn ei barn hi. Mewn ysgol arall, arweiniodd y gweithgaredd gyda blychau esgidiau i un athrawes fyfyrio'n ddyfnach ar ei harfer ei hun: "Os edrychwch ar y blychau hyn, gallwch weld yr holl wahaniaethau mewn dim ond grŵp bach o blant ... yn rhy aml, caiff yr amrywiaeth hon ei rhwystro mewn ysgolion. Ydyn ni'n gwneud iddyn nhw gydymffurfio'n ormodol?"**

# Gwybodaeth bellach

**Mae'n ddefnyddiol edrych ar ymchwil y TLRP yng nghyd-destun Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a luniwyd yn 2008.**

Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod ysgolion yn gweithredu o fewn cyd-destunau lleol penodol sy'n newid. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad dim ond fel systemau oddi mewn i'w hunain y caiff ysgolion eu hystyried, ond y cân nhw eu cydnabod fel rhan o'r system addysgol ehangach yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn pwysleisio y ceir newid ystyrlon pan fydd ymgysylltu a chydweithredu pwrpasol ar lefelau gwahanol: rhwng ystafelloedd dosbarth/ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad ar y Fframwaith yn disgrifio chwe elfen allweddol y system addysg yng Nghymru – arweinyddiaeth; gweithio gydag eraill; rhwydweithiau arfer proffesiynol; ymyrraeth a chymorth; gwelliant ac atebolrwydd; a'r cwricwlwm ac addysgu – gan gydnabod rhyngddibyniaeth rhain a'r angen i ymdrin â newid ar bob lefel.

## Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen

Ceir cysylltiadau clir rhwng elfen 'Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol' y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a thema Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen a nodwyd drwy'r adolygiad o brosiectau'r TLRP. Bydd llwyddiant gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dibynnu i raddau helaeth ar allu a hyder ymarferwyr i ymateb i'r heriau a gaiff eu creu gan newid addysgol. Mae goblygiadau cynnydd mewn cymarebau oedolion i blant a'r galwadau sy'n rhan annatod o'r broses o gyflwyno dulliau addysgeg newydd yn pwysleisio pwysigrwydd 'credoau a dealltwriaeth a rennir' a 'phroffesiynoldeb ar y cyd': sef materion a amlygwyd yn yr elfen hon o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae goblygiadau yn gysylltiedig â hyn i bob lefel ymgysylltu. Mae angen i ymarferwyr fod yn rhagweithiol wrth fynd ati'n systematig i fyfyrio ar eu gwaith a'i werthuso a llunio ymyriadau ('sy'n seiliedig ar ymholi') i ymdrin â'r materion maen nhw'n eu nodi. Er mwyn ategu hyn, mae angen i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo a datblygu systemau sy'n galluogi ymarferwyr i ddylanwadu ar eu hanghenion addysg a hyfforddiant eu hunain a'u llywio.

## Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Mae goblygiadau o ran 'Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen' i nifer o elfennau yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r goblygiadau pwysicaf yn ymwneud â'r elfen 'Gwelliant ac Atebolrwydd'. Mae'r Fframwaith yn cydnabod natur ganolog addysgu o ansawdd uchel a disgwyliadau uchel i berfformiad addysgol effeithiol. Mae gallu ymarferwyr i bennu targedau uchel ond rhai y gellir eu cyflawni i ddysgwyr a dewis a defnyddio strategaethau dysgu, addysgu ac asesu effeithiol yn allweddol i welliant ysgolion. Mae gwelliant ysgolion hefyd yn dibynnu ar gynnwys plant mewn penderfyniadau bob dydd am eu dysgu.

## Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau

Mae gan y thema Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau oblygiadau penodol i adran 'Gweithio gydag Eraill' y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Dylai fod cymorth ar bob lefel i ddatblygu cyfranogiad teuluoedd a phartneriaethau dwyffordd – yn enwedig i ysgolion yn y cymunedau sydd o dan yr anfantais fwyaf. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd rhieni ac ymarferwyr yn meithrin partneriaethau sy'n gwella ansawdd amgylchedd dysgu'r cartref. Er mwyn annog hyn, mae angen i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion i nodi a lledaenu 'arfer da' presennol a hefyd i dreialu a gwerthuso ymyriadau sy'n helpu ymarferwyr i feithrin cydberthnasau cryf â phob teulu ac â'r gymuned ehangach.

## Cyfeiriadau ychwanegol


APADGOS (2008a) *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

APADGOS (2008b) *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Bath, C. (2009) *Exploring Young Children's Participation at the Start of School.* Abingdon, Swydd Rydychen: Routledge.

Grŵp Diwygio Asesu (1999) *Assessment for Learning: Beyond the Black Box.* Caergrawnt: Prifysgol Caergrawnt, Ysgol Addysg. www.assessment-reform-group.org/AssessInsides.pdf

Mansell, W., James, M. a'r Grŵp Diwygio Asesu (2009) *Assessment in Schools, Fit for Purpose? A commentary by the Teaching and Learning Research Programme*. Llundain: ERSC a TLRP.

Siraj-Blatchford, I. a Siraj-Blatchford, J. (2009) *Improving children's attainment through a better quality of family-based support for early learning.* Llundain: C4EO.

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B., (2008), *Effective Pre-School and Primary Education Project (EPPE 3–11): Final Report from the Primary Phase: Pre-school, School and Family Influences on Children's Development during Key Stage 2 (age 7–11) DCSF Research Report RR061*. Nottingham: Lloegr.

## Nodiadau

**i. APADGOS, (2008a)**
**ii. www.TLRP.org.uk**
**iii. APADGOS (2008b)**
**iv. Mansell et al. (2009)**
**v. Ibid**
**vi. Ibid**
**vii. Ibid**
**viii. Mae NNEB neu weinyddes feithrin yn ymarferwr â chymhwyster y Bwrdd Arholi Gweinyddesau Meithrin Cenedlaethol**
**ix. Mae'r vignette yma yn enghraifft o brosesau meddwl parhaus a rennir o EPPE (1997–2003; Papur Technegol 10, 2003, tudalen 127)**
**x. www.tlrp.org/themes/themes/tenprinciples.html**
**xi. www.funkydragon.org/en/fe/page.asp?n1=2**
**xii. Bath (2009)**
**xiii. Sylva et al. (2008); gweler hefyd Siraj-Blatchford a Siraj-Blatchford (2009)**